# Y BIGWN

CYF. 30 RHIF 7 TACHWEDD 2018 *Papur Bro Dinbych* *Pris 50c*

# Penblwydd Hapus i Popeth Cymraeg a Gwefr heb Wifrau







Lil, Carole ac Ann yn helpu gyda'r bwyd





Alun Jones, Nerys Ann, David Crawford, Vesi Jones - hanes tudalen 4

**Mae angen i BOB DIM fod wedi cyrraedd bocs Y Bigwn erbyn Dydd Gwener, Tachwedd 16 - Ar Werth Rhagfyr 1, 2018**

# Gŵyl Eirin



Y Maer Cyng. Catherine Jones, Peter a Nia




Rhys a stondin fêl




Drysau Agored - ymwelwyr o wlad Thai

# Hen Geir




Y Maer Cyng. Catherine Jones yn cychwyn un o 150 o hen geir



Guto yn stiwardio



Cefnogwyr hen geir

# Drysau Agored



Llion Williams yn sioe Esgob Morgan, hanes tud. 8

## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
- **Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Sian Jones
01745 812214
russelljones9
@talktalk.net

**GOLYGYDDION:**
Berwyn Roberts (812672)
John Davies (812239)
Erfyl Williams (814832)
Catrin Warren (814675)
Ceredig Gwynn (815701)
Ruth Williams (812822)
Angharad Rhys (813259)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (815149)

**YSGRIFENNYDD**
Bedwyr Griffiths
Bryn Llys, 10 Llain y Capel
Dinbych LL16 3TU
01745 814497
ebost:
ed321@btinternet.com

**TRYSORYDD**
John Geraint Jones
18 Llys Marchell, Dinbych
LL16 4AR
01745 817485

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Sian Rogers (813368)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
ybigwn@hotmail.co.uk

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

# Gair gan y Golygydd

**Ffrindiau**

Wrth lywio'r gweithgareddau yn y dathlu dwbl yng Nghanolfan Iaith Clwyd (gweler adroddiad yn y rhifyn hwn) a gwrando ar y siaradwyr sylweddolais pa mor bwysig oedd ffrindiau i'n gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol. Soniodd Vesi Jones am bwysigrwydd y cyfeillgarwch rhwng Ioan Talfryn a David, ei gŵr, i sefydlu Y Ganolfan. Dw innau yn cofio mynd i'r cyfarfod cyhoeddus cyntaf i alw am sefydlu Canolfan Iaith. Es i yno gyda chyfaill, Ifor ap Glyn, oedd yn byw yma yn Ninbych ar y pryd. Penderfynasom gyda'n gilydd y byddem yn rhoi ein enwau i fod ar y pwyllgor llywio. Cyfeillgarwch yn bwysig eto. Yn y cyfarfod dathlu soniais innau fy mod wedi ymwneud ag Amgueddfa Gwefr heb Wifrau oherwydd fy nghyfeillgarwch gyda David Jones.

Meddyliwch chithau am y gwahanol gymdeithasau a mudiadau lleol yr ydych yn rhan ohonynt a dwi'n siŵr y byddwch yn sylweddoli fod llawer wedi cychwyn oherwydd fod ffrindiau wedi dod at eu gilydd i gychwyn rhywbeth newydd ar ôl sgwrs. Beth am Y Bigwn ei hun? Tybed ai grŵp o gyfeillion ddaeth at eu gilydd gyntaf i'w gyhoeddi?

Wrth gwrs mae'r broses yn gweithio'r ddwy ffordd. Drwy ymuno a chymdeithas neu wirfoddoli gyda gweithgarwch neu elusen lleol mae rhywun yn gwneud ffrindiau newydd a mae hynny yn help i sicrhau fod pobl yn parhau i wneud eu rhan ac yn mwynhau hynny.

**Cofio**

Ychydig wedi cyhoeddi'r rhifyn hwn bydd hi'n Sul y Cofio. Mae'n debyg y bydd yn achlysur go arbennig oherwydd bod hi'n gan mlynedd ers ddiwedd y rhyfel byd cyntaf. Mae'n debyg y bydd lawer ohonoch yn gwisgo'r Pabi Coch ond hoffwn i chi ystyried oni fyddai y Pabi Gwyn yn fwy addas. Mae'r seremonïau ar Sul y Cofio wedi bod yn fodd o fawrygu rhyfel ers y dechrau. Yn 1930 cynigodd Pwyllgor Heddwch Seneddol y dylid newid y seremoni i un o 'heddwch a chofio'. Yr ateb o'r swyddfa ryfel oedd "Amhosibl. Da ni'n cael mwy o filwyr newydd yn y bythefnos ar ôl y seremoni na trwy'r flwyddyn." Does dim wedi newid. Mae'r Lleng Brydeinig yn gwrthod cofio holl ddioddefwyr rhyfel gan gynnwys y 90% o'r meirw sydd yn sifiliaid erbyn hyn. Pam tybed? Ydi o rhywbeth i wneud efo'r ffaith eu bod yn cael nawdd gan gwmnïau arfau enfawr fel Lockeed Martin. Mae'r neges 'byth eto' wedi ei anghofio.

Mae pabi gwyn efo'r gair HEDD arno ar gael gan Cymdeithas y Cymod http://www.cymdeithasycymod.org.uk/nwyddau.htm

**Dyfrig**

---

# Nos Wener
# Tachwedd 9fed.
**am 7.30yh**
## yng Nghlwb Rygbi Dinbych
## Cwis Dwyieithog gyda
# Stan ac Erfyl
## Timau o 4 neulai - £2 y pen
**Trefnir gan Bwyllgor Apêl Tref Dinbych**
**Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2020**

---

## Dyddiadur

| | |
|---|---|
| Tachwedd 4ydd : | Cyngerdd Côr y Porthmyn, Capel y Fron, 7.30yh |
| Tachwedd 7ed : | Merched y Wawr, Festri Capel y Fron, Genod y Granar, 7.30yh |
| Tachwedd 9ed : | Cwis gyda Stan ag Erfyl, Clwb Rygbi Dinbych, 5yh |
| Tachwedd 10ed : | Rhedeg yn ôl i Baris, Neuadd y Dref, 8yh |
| Tachwedd 21ain : | Cymdeithas ddiwylliadol Y Fron a'r Brwcws/Cymdeithas Y Merched, Iwan edwards – Er lles bywyd gwyllt a phobl |
| Tachwedd 24ain : | Côr Meibion Dinbych a'r Cylch, dathlu 30 mlynedd, Y Gadeirlan Llanelwy 7.30yh |
| Tachwedd 30ain : | Cymdeithas Caledfryn, Melin Brwcws – Ifor John Jones – Byw a Gweithio yn Papwa Gini Newydd, 7.15yh |

# Dathliadau dwbl yng Nghanolfan Iaith Clwyd

Roedd Dydd Gwener, Hydref 12ed yn ddiwrnod arbennig iawn yng Nghanolfan Iaith Clwyd. Uchafbwynt wythnos o weithgareddau i ddathlu pen blwydd Y Ganolfan yn 30 oed a amgueddfa Gwefr heb Wifrau yn 10 oed oedd y cyfarfod dathlu hwn. Croesawyd y gynulleidfa niferus i'r Ganolfan gyda seiniau telyn Dylan Cernyw cyn dechrau rhan ffurfiol y cyfarfod am 11 y bore.

Yn anffodus nid oedd Ioan Talfryn, Prif Weithredwr Popeth Cymraeg ac un o'r prif sylfaenwyr, yn gallu bod yno am resymau teuluol a felly Dyfrig Berry, Is-gadeirydd Popeth Cymraeg a Thrysorydd Gwefr Heb Wifrau, fu'n llywio'r cyfarfod.

Cawsom ychydig o hanes sefydlu Y Ganolfan gan Alun Jones, Cadeirydd Popeth Cymraeg. Bu'n sôn am sut y deilliodd y syniad o sgwrs mewn tafarn rhwng Ioan a David Jones oedd yn digwydd bod yn Faer Dinbych ar y pryd. Soniodd Ioan am yr ymchwil oedd o wedi ei wneud i sefyllfa'r iaith Gymraeg yn yr hen Glwyd a pha mor fuddiol fyddai cael canolfan iaith yn Nyffryn Clwyd. Neidiodd David ar y syniad a chychwyn ymgyrch i sefydlu canolfan o'r fath.

Soniodd Alun hefyd am onestrwydd hynod David Jones a chawson hanesyn difyr yn amlygu hynny. Roedd Alun a David ac eraill wedi mynd i rywle yn Lloegr i edrych ar y cypyrddau gwydr ar gyfer amgueddfa Gwefr Heb Wifrau. Pan oeddynt ar y ffordd yn ôl i'r car sylweddolwyd eu bod wedi aros braidd yn hir a fod y tocyn parcio wedi dod i ben ers tipyn. Ymateb pawb pan welsant nad oedd tocyn ar y car oedd ochenaid o ryddhad, hynny ydi pawb ond David. Roedd o eisiau chwilio am swyddfa'r cyngor i dalu'r ddyled! Efallai fod y gonestrwydd hynod yma yn rhan o'r rheswm ei fod, er fod ganddo ddaliadau gwleidyddol cryf, yn llwyddo i ennyn parch a chefnogaeth gan wleidyddion ar draws y pleidiau i gyd.

Wrth gyflwyno'r gwleidydd cyntaf i siarad sef aelod seneddol yr ardal Chris Ruane tynnodd Dyfrig sylw i'r ffaith fod llun o 8 gwleidydd gwahanol yn y toriadau papur newydd ac ati ar furiau yr ystafell gyfarfod, arwydd o'r gefnogaeth wleidyddol traws-bleidiol gafodd David i'r syniad o sefydlu'r Ganolfan.

Soniodd Chris Ruane ychydig am hanes ei deulu a'r modd y collwyd y Gymraeg a siaradai ei daid ond fod tro wedi bod yn yr hanes a fod yntau wedi bod yn dysgu Cymraeg a'i ferch wedi mynychu Ysgol Glan Clwyd. Talodd deyrnged i'r gwaith fu Ioan Talfryn yn wneud dros yr Iaith.

Aed ymlaen i glywed geiriau o gefnogaeth gan Llinos Roberts, Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol Coleg Cambria, partneriaid Popeth Cymraeg, a gan Awen Schiavone ar ran y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Cyn symud ymlaen i'r ail hanner cafwyd seibiant cerddorol gyda Nerys Ann, un o diwtoriaid mwyaf gweithgar Popeth Cymraeg, yn canu llu o ganeuon yn rhedeg mewn i'w gilydd. Difyr iawn ac, gan fod nifer o ganeuon Triawd y Coleg yn y medli, yn ddolen gyswllt perffaith i gyflwyno'r ail hanner oedd bennaf yn canolbwyntio ar amgueddfa Gwefr Heb Wifrau.

Cafwyd cyflwyniad byr gan Dyfrig i hanes sefydlu Ymddiriedolaeth Gwefr Heb Wifrau gan David Jones. Pwysleisiodd pa mor bwysig oedd y cyswllt Cymreig i David a felly i'r amgueddfa. Roedd cyfraniad y byd darlledu a sefydlu Cymru fel 'rhanbarth' darlledu ar wahân wedi bod yn bwysig yn natblygiad a goroesiad y syniad o Gymru fel cenedl. Hefyd 'roedd dylanwad Cymry yn natblygiad y diwydiant radio yn bwysig iawn.

Aeth David Crawford, curadur yr amgueddfa a chyd-weithiwr i David Jones, ymlaen i sôn am rai o werthoedd eraill David Jones a'r amgueddfa er enghraifft nid yw'r amgueddfa yn casglu offer milwrol i gyd-fynd a daliadau heddychol David. Roedd ei frwdfrydedd ynglŷn a gweithgarwch yr amgueddfa yn amlwg yn ei gyflwyniad.

Aed ymlaen i gael geiriau gan ddau wleidydd arall. Yn gyntaf Llyr Huws Gruffydd, Aelod Cynulliad Rhanbarthol dros Ogledd Cymru a Llywydd Anrhydeddus Gwefr Heb Wifrau ac yna, Ann Jones, Aelod Cynulliad Dyffryn Clwyd. Hefyd cawsom gyfle i weld neges o gefnogaeth wedi ei recordio gan Eluned Morgan, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes.

Clowyd y rhan ffurfiol o'r cyfarfod gan Vesi Jones, Cadeirydd Gwefr heb Wifrau a gweddw David Jones y sylfaenydd. Pwysleisiodd pa mor bwysig oedd cyfeillgarwch wedi bod yn hanes y ddau gorff. Cyfeillgarwch rhwng David a Ioan i sefydlu Canolfan Iaith Clwyd ddatblygodd i fod yn Popeth Cymraeg yn ogystal a chyfeillgarwch rhwng pawb sy'n gweithio a gwirfoddoli dros y ddau gorff oedd yn dathlu.

I orffen diolchodd Dyfrig i bawb oedd wedi bod yn rhan o lwyddiant y ddau gorff, yn staff, tiwtoriaid, cyn-weithwyr, cyfarwyddwyr a chyn-gyfarwyddwyr Popeth Cymraeg, gwleidyddion, aelodau pwyllgor a gwirfoddolwyr eraill Gwefr Heb Wifrau.

Cafwyd lluniaeth a diod i orffen y cyfarfod gyda cyfle i sgwrsio neu ymweld a'r amgueddfa. Cafwyd dwy gacen penblwydd, un wedi ei gwneud gan Y Granar a'r llall gan Carole, un o wirfoddolwyr Gwefr Heb Wifrau.

---

Ynghanol hapusrwydd achlysur dathlu pen-blwydd Canolfan Iaith Clwyd cafwyd newyddion trist. Dymuna Popeth Cymraeg estyn cydymdeimlad at un o'u Cyfarwyddwyr, Dilys Hughes, a'i theulu i gyd. Bu farw Hywel, gŵr Dilys, Ddydd Mawrth Hydref 9ed. Mae'n siŵr y bydd llawer ohonoch yn ei gofio fel athro a phennaeth Addysg Gorfforol yn Ysgol Glan Clwyd.

## Gwefan Y Bigwn

Erbyn i'r rhifyn hwn weld golau dydd bydd gwefan newydd y Bigwn ar-lein. Bydd cyfle ar unwaith i lawrlwytho ôl-rifynnau ar ffurf dogfennau PDF. Bydd hefyd modd defnyddio y wefan i gysylltu â'r Bigwn. Gobeithiwn ychwanegu cyfleusterau eraill megis calendr digwyddiadau ac ati cyn bo hir.

I gael mynediad i'r wefan ewch i www.ybigwn.cymru



Ann Jones AC



Llyr Gruffydd AC



Awen Schiavone



Chris Ruane AS



Diolch i Ji-Binc am y lluniaeth



Llinos Roberts, Coleg Canbria



Dyfrig yn cyflwyno

# Gŵyl Eirin 2018

Efallai nad oedd y cnwd Eirin Dinbych cystal a’r disgwyl eleni ond roedd gweld y tyrfaoedd yn heidio i’r Wyl Eirin yn tystio bod yr Wyl yn boblogaidd ac wedi datblygu i fod yn un o brif ddigwyddiadau’r hydref yma yn y Gogledd Ddwyrain.

Er mai am 10 o’r gloch roedd y Maer yn agor yr Ŵyl yn swyddogol roedd y meysydd parcio yn llawn ymhell cyn hynny a’r stondinau yn brysur werthu eu cynnyrch. A felly y bu ar hyd y dydd tan roedd y stondinau bron yn wag.

Cynnyrch lleol a nwyddau lleol oedd yn hawlio sylw llawer o’r ymwelwyr i’r ŵyl. Roedd llysiau organig lleol, danteithion, bara a chacennau lleol, mêl lleol a llawer, llawer iawn mwy o gynnyrch yn diflannu oddiar y byrddau fel tase na ddim yfory.

Pleser oedd gweld cymaint o wynebau cyfarwydd yn cael y cyfle i ddal fyny â’r sgwrs ac hefyd gweld cymaint o ymwelwyr a oedd wedi cymryd y cyfle i ymweld â’r dref a’i gweld ar eu heulog orau.

A dyma ein Gwyl Eirin fach ni wedi cyrraedd ei 10fed penblwydd eleni. Pwy fase’n meddwl! A beth nesaf? Rwy’n siŵr fod gan y gwirfoddolwyr gweithgar, brwdfrydig syniadau am sut maenhw am weld yr Wyl yn parhau i dyfu. Diolchwn iddynt am eu gweledigaeth ac am iddynt roi ein tre ar y map.

Edrychwn ymlaen yn eiddgar at y dydd pan y bydd Eirin Sir Ddinbych yn derbyn ei statws Ewropeaidd. O leiaf bydd ein eirin yn rhan o Ewrop!

## RHYBUDD GDPR

Oherwydd rheolau newydd ynglŷn â phreifatrwydd data personol, rydym yn gwneud rhai newidiadau i'r ffordd mae **Y Bigwn** yn casglu gwybodaeth a newyddion a'u cadw.

i ohebwyr, cyfranwyr, clybiau, grwpiau ac ysgolion ddatgan eu bod..... wedi sicrhau caniatâd rhiant neu ofalwr pob plentyn dan 13 i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth anfon pob adroddiad i’r **Bigwn** wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn dros 13 i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfon pob adroddiad i’r **Bigwn.**

Ni dderbynnir unrhyw newyddion personol/lluniau am blentyn ond oddi wrth riant neu ofalwr y plentyn hwnnw.

Felly wrth ddanfon eich newyddion neu luniau i’r **Bigwn**, cofiwch eich bod wedi gwneud yr uchod a chynnwys y datganiad canlynol gyda’ch newyddion a’ch lluniau:

Rydym yn datgan ein bod wedi sicrhau caniatâd rhiant neu ofalwyr pob plentyn dan 13 a gynhwysir yn yr adroddiad/lluniau atodedig ar gyfer eu cyhoeddi yn **Y Bigwn**, yn ogystal â chaniatâd pob unigolyn dros 13 a gynhwysir. Diolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth gyda hyn


J. H. & B. JONES



CIGYDD TEULU

Gwerthu PYSGOD hefyd

* Cig cartref
* Cig o ffermydd lleol
* Cig i'r rhewgell

92 Stryd y Dyffryn,
Dinbych
01745 812132

# Saga'r Sinema

Problem ddyrys i mi ar hyn o bryd yw canfod testun newydd ar gyfer Y Bigwn. Gan fy mod wedi bod wrthi ers sbel bellach yn sôn am enwogion a chymeriadau'r dref, hen siopau a strydoedd, llysenwau ac yn y blaen ac yn agos at 'sbyddu'r pot, rhaid i mi droi i gyfeiriadau eraill.
Mae testunau amlwg fel Y Castell, Yr Eglwys Wen, Y Seilam a Gwasg Gee wedi eu trin gant a mil o weithiau. Beth a wnaf? A, dyma un wedi llithro i'r golwg – sefydliad oedd yn amlwg iawn yn Ninbych genhedlaeth neu ddwy yn ôl – Y Sinema. Mae sawl degawd wedi hedfan heibio ers i'r hen Scala – gyferbyn â phen Marchnad y Moch ar Lyf Lôn gau ond 'rwyn siwr bod llawer ohonoch wedi bwrw sawl awr ddiddorol yno ar b'nawn Sadwrn yn gwylio'r cowbois wrth iddynt garlamu ar draws y sgrin neu'n chwerthin wrth fwynhau campau Laurel a Hardy, neu gyda'r nos ym mreichiau'ch cariad yn anwybyddu dialog Clark Gable a Marilyn Monroe a'u tebyg.
Ond beth am hanes y sinema yma yn Ninbych? Un o arloeswyr y sinema yng Nghymru oedd Arthur Cheetham a rhwng 1898 a 1906 fe ddangosodd ffilmiau mewn neuaddau yn Aberystwyth, y Rhyl a Bae Colwyn ond y sinema go iawn gyntaf oedd Yr Electric Cinema, Stryd Y Frenhines, Caerdydd. Erbyn 1920 yr oedd 252 o sinemâu Cymreig.
Ar dudalen flaen Y Faner, Chwefror 7fed, 1914 mae hysbyseb yn cyhoeddi ffilmiau yn Y Picturedrome yma yn Ninbych, prisiau mynediad 3 ceiniog, 6 cheiniog a swllt. Ffilmiau di-sain oedd y rhain wrth gwrs gyda un Mr Morris wrth y piano, yr oedd y drysau ar agor am 7.30 yr hwyr, ac ar Ddydd Sadwrn, dau berfformiad, un am 6.30pm a'r llall am 8.30pm. Hefyd yr oedd perfformiadau brynhawniau Mercher a Sadwrn am 2.30pm. Yn ôl pob deall, lleoliad y Picturedrome oedd y llawr cyntaf uwchben ble mae Siop y Co-op heddiw ar y Stryd Fawr.
Ym mis Ionawr 1997 dathlwyd canmlwyddiant y sinema Gymreig yn Amgueddfa Wrecsam a hefyd yma yn Llyfrgell Dinbych pan yr oedd cyfle i wylio hen daflunydd ffilm ar waith, i wybod am oes y ffilmiau di-sain, i ddynwared cynulleidfa yn gweiddi Bw a Hwre ac i wylio campau comediwyr fel Charlie Chaplin a BusterKeaton.
Erbyn 1918 yr oedd Neuadd y Dref ar Sgwâr y Goron wedi ei chwblhau ar safle'r hen farchnad a thafarn y Farmer's Arms, a symudwyd y sinema yno. Ei henw erbyn hyn oedd yr Enterprise tra yr oedd pencadlys y cwmni yng Nghei Conna. Sêr y Sgrin bryd hynny oedd Beti Balfour, Jane Novak a Brian Aherne a'r prif ffilmiau oedd Charley's Aunt a ffilm yn olrhain anturiaethau David Livingstone a'i achubiaeth gan H.M. Stanley o Ddinbych. Yn ôl pob deall yma yr oedd y sinema lleol nes agorwyd y Scala yn Lyf Lôn yn 1928 gan gwmni y Deeside Enterprise. Yno yr oedd lle i 450 o gwsmeriaid yn talu rhwng chwe cheiniog a swllt y pen am eu ticedi. Erbyn hyn wrth gwrs yr oedd y 'talkies' wedi cyrraedd a daeth yr arfer o fynychu'r sinema yn gyffredin iawn.
Ydach chi'n cofio'r staff oedd yno bryd hynny? Mr Rees oedd y Rheolwr yntau bob amser yn drwsiadus yn ei siwt ddu a'i dei dici bo. Mae gen i gof amdano yn gofalu bod Donny Jones, yntau yn ei gadair olwyn, yn cael lle arbennig. Dilynwyd Mr Rees gan Oliver Jones, yntau'n cael ei gynorthwyo gan Pia Peters, Gwyneth Thomas, Hazel Paynne, Bill Cox a Dei Davies. Yn ystod yr egwyl yr oedd cyfle i brynu hufen iâ.
Problem go fawr weithiau oedd cadw disgyblaeth ar y ddau giw oedd yn ffurfio ar y pafin y tu allan – un ar gyfer y balconi a'r llall ar gyfer y llawr – rhai yn mynnu hawlio lle yn y blaen.
Pnawniau Sadwrn, gyda chynulleidfa o blant swnllyd, byddai'r rheolwr gyda chymorth adlewyrchiad drych, yn dewis pwy yn ei farn ef oedd y plentyn gorau, a hwnnw yn derbyn ticed at y Sadwrn nesaf.
Erbyn 1966 yr oedd yr enw wedi newid o'r Scala i'r Wedgewood gyda phrisiau mynediad yn bedwar swllt a choron y pen.
Ser y cyfnod hwnnw oedd rhai fel Frank Sinatra, Bette Davies, Glenn Ford a'u tebyg. Pe bai ffilm yn hynod o boblogaidd fel Proud Valley neu Last Days of Dolwyn , i enwi dim ond dwy, bu rhaid trefnu perfformiadau ychwanegol.
Yn fy meddiant mae taflen 1966 gan y Wedgewood ac arni hysbysebion gan fusnesau lleol megis J Alun Roberts, groser Lyf Lôn, Peacocks o dan y Bylciau, Siop Cunnah yn Stryd Henllan a Siop Rudi ar ben Marchnad y Moch.
Wel erbyn hyn mae'r teledu a'r cyfrifiadur wedi disodli apêl y sinema ymhobman bron ond mae'r ffyddloniaid yn Ninbych, er mwyn cadw'r hen draddodiad yn fyw, wedi sefydlu Clwb Ffilmiau.Gyda'r amcan o ail gyflwyno'r cyfle i wylio ffilmiau maent yn dangos detholiad ohonynt yn rheolaidd yn Theatr Twm o'r Nant.
Dim ond wal wyth troedfedd sydd ar safle'r hen Scala erbyn hyn gyda môr o anialwch y tu ôl iddi – lleoliad delfrydol i ysbrydion y sêr a fu geisio diddori eu hunain.
Nis gallaf adael y topic yma heb adrodd stori fach ddiddorol. Nôl yn y pumdegau, pan nad oedd y Scala ar agor ar y Sul, yr oedd sinemau Y Rhyl a'r Plaza yn denu llawer yno. O ganlyniad, o tua phump o'r gloch ymlaen, yr oedd bysiau'r Crosville yn gadael Pwll y Grawys yn llawn dop. Gan fy mod innau, bryd hynny, yn dysgu yn ninas Lerpwl yn arfer dal bws Penbedw tua'r un amser, rhybudd Mam, wrth i mi adael y tŷ oedd i beidio sefyll yn rhy agos i giw bws Y Rhyl rhag ofn i bobl feddwl fy mod am ymweld â'r sinema yno!
Stori arall oedd honno am Mathonwy a Mair Hughes yn mynychu un o sinemâu Y Rhyl gan feddwl mai ffilm crefyddol oedd Emmanuelle!

*R M (Bobi) Owen*



# AMGUEDDFA RADIO

Gwefr heb Wifrau

Dilynwch ni ar

Uchafbwynt digwyddiadau'r mis oedd Wythnos Ddathlu Dengmlwyddiant Gwefr heb Wifrau a Dengmlwyddiant ar Hugain Popeth Cymraeg. Diolch i bawb a'n cefnogodd yn ystod yr wythnos, ac sy wedi ein cefnogi ers y cychwyn yn 2008! Ceir adroddiad llawn gan Dyfrig.
Ymhlith y digwyddiadau eraill cawsom Noson Gwis lwyddiannus arall o dan law feistrolgar Martyn a'r penwythnos prysuraf erioed yn ystod Drysau Agored Dinbych. Bu pobl yn mwynhau gweld o gwmpas yr arddangosion a gwrando ar y 'Voigt Corner Horn', tra bu pobl eraill yn arbrofi gyda chelf losgliw. Llwyddodd yr Amaturiaid Radio i gysylltu ag Amaturiaid eraill yn Efrog Newydd a Dwyrain Ewrop.



Dychwelodd John Clark atom i barhau â'i sgwrs am ei ddiddordeb ym maes gemwaith. Aur oedd ei bwnc y tro yma a chawsom gipolwg ar y ffordd y tynnwyd aur o'r ddaear ar hyd y canrifoedd a sut roedd yn cael ei drin. Soniodd am fwyngloddiau Dolau Cothi yn Sir Gaerfyrddin ac am ardal yn Sbaen lle bu'r Rhufeiniaid yn cloddio am aur ar raddfa enfawr. Eglurodd sut y defnyddiwyd aur fel darnau arian yn y chweched ganrif CC a'r problemau oedd yn gysylltiedig â hynny wrth i bobl dorri darnau i ffwrdd a'u cadw.



Cyfeiriodd yn arbennig at Glogyn Aur yr Wyddgrug o 1900-1600 CC, yn Oes yr Efydd, a ddarganfuwyd ger yr Wyddgrug yn 1833. Mae'n bosib ei bod wedi bod yn rhan o wisg seremonïol.



Rydym wedi derbyn dau arddangosyn yn ddiweddar - a achosodd dipyn o gyffro yn yr Amgueddfa! Yn y llun, gwelir dwy ddynes o Lostock Hall, ger Preston, yn cyflwyno Radio Osram Music Magnet 4 o 1929, sy'n cynnwys pedair falf, a Seinydd Corn Gecophone i David. Perthynas i'r gwragedd, Thomas Halliday oedd yn Amatur Radio brwdfrydig iawn oedd yn berchen y radio yn wreiddiol. Gobeithir trwsio'r radio i'w gael i weithio unwaith eto.






Radiophone Ediswan, ar werth yn 1925 am £27, oedd yr ail rodd i'r Amgueddfa. Diolch i Ann ac Ifor John am ei gludo o Gaerdydd.

Croeso cynnes i bawb i'n digwyddiadau nesaf:
**Tachwedd 16eg**, Richard Vernon yn sgwrsio ar "Yn y Stiwdio Recordio", am 19.00.
**Tachwedd 30ain**, Noson y Curadur, David Crawford yn sgwrsio am "Thomas Edison: Y Dyn fu bron â dyfeisio Radio" am 19.00.
**Rhagfyr 1af, 10.00-12.00,** Bore Coffi Nadolig yn Eirianfa, ar y cyd â Mind Dyffryn Clwyd a Chymdeithas y Soroptimists.

## HEN LUNIAU

Os oes gennych hen luniau o'ch teulu, cymdogion neu ffrindiau o'r ardal ac yn dymuno eu rhannu gyda darllenwyr y Bigwn, anfonwch ar ffurf ebost at ybigwn@hotmail.co.uk ac fe roddwn un llun bob mis yn Y Bigwn. Os yn bosib, byddai enwau, digwyddiad neu yr achlysur yn help i bawb adnabod y llun.

**CAPEL Y FRON**

# CYNGERDD

**gan**

# CÔR Y PORTHMYN

## Nos Sul, Tachwedd 4ydd.

**am 7.30yh**
**Mynediad: £5 i oedolion**
**Elw tuag at yr adeiladau**
**Tocynnau ar gael gan aelodau Pwyllgor yr Adeiladau**
**neu yn Siop Clwyd**
**Maes parcio wrth Ysgol Twm o'r Nant ar agor**

# Drysau Agored

Unwaith eto 'roedd y Penwythnos Drysau Agored a gynhaliwyd ar y 29ain a'r 30ain o Fedi yn hynod llwyddiannus. Roedd dros 700 o bobl wedi ymweld â'r dref eleni ar gyfer y penwythnos yma a gynhelir yn flynyddol.

Mae'r penwythnos yn rhan o ddigwyddiad treftadaeth Ewropeaidd, sy'n cael cefnogaeth Cadw yn genedlaethol

Yma'n Ninbych, mae'r penwythnos yn cael ei drefnu gan griw o wirfoddolwyr brwdfrydig, a braf yw cael gweld y tu ôl i rhai drysau sydd ddim fel arfer ar agor i'r cyhoedd. Eleni cafwyd y cyfle cyntaf ers rhai degawdau i gael cipolwg y tu fewn i dŵr Eglwys Sant Ilar.

Ar y dydd Sul cafwyd dau berfformiad o sioe Yr Esgob William Morgan, gyda Llion Williams yn cyflwyno'r Esgob 'mewn cymeriad' ar safle Eglwys yr Iarll Caerlŷr, ger furiau'r dref. Roedd yn adrodd hanes y cyfnod pan oedd Elizabeth 1af a Robert Dudley yn teyrnasu, a'r weithred o fynd ati i gyfieithu'r Beibl. I ychwanegu at y cyflwyniad, cafodd y gynulleidfa eu hatgoffa am y ffaith fod William Morgan wedi bod yn ficer ar yr eglwys hon am gyfnod.

Ces i gyfle fel gwirfoddolwr i dywys llu o bobl o gwmpas Amgueddfa Gwefr Heb Wifrau fore Sadwrn. Yn y prynhawn bum yn dangos y pethau diddorol sydd ar waliau Siambr y Cyngor yn Neuadd y Dref e.e. copïau o siartrau y dref. Roedd yna bobl o bob cwr o'r byd yn ogystal a bobl leol.

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol pwyllgor Drysau Agored nos Fawrth 13 Tachwedd am 6:30 yn Amgueddfa Dinbych. Hoffai'r pwyllgor glywed am syniadau pobl lleol ar gyfer y penwythnos yn 2019, ac yn arbennig os oes gan rhai awydd agor drysau eu tai neu swyddfeydd, os ydynt yn adeiladau o ddiddordeb hanesyddol neu pensaernïol. Cysylltwch â Medwyn Williams, Cadeirydd y pwyllgor llywio.

Dyfrig Berry




Dyfrig yn dangos yr arddangosfa i ymwelydd

# Y Cymdeithasau

## Cymdeithas Ddiwylliadol Capel y Fron a'r Brwcws

Cawsom noson ddifyr, llawn chwerthin yng nghwmni Aeryn Jones, Dinmael a'i fab Rhys yn noson agoriadol y tymor. Mae Aeryn yn adnabyddus fel adroddwr ond mae hefyd yn plygu gwrychoedd, yn waliwr cerrig ac yn gasglwr hen greiriau fferm.

Cofiai Aeryn gystadlu yn Eisteddfod y Calan, Llanfihangel Glyn Myfyr gyda Llwyd o'r Bryn yn beirniadu ac yntau, Llwyd o'r Bryn, yn cael cludiant adref efo Aeryn yn ei gar. Doedd dim ffafriaeth yn ôl Aeryn!! Flynyddoedd wedyn yn 2008 enillodd Aeryn Wobr Goffa Llwyd o'r Bryn am adrodd i rai dros 21 oed yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd.

Yn Eisteddfod Boduan ym Mhen Llŷn cofiai Aeryn iddo golli tê'n ddamweiniol ar ei drowsus a hwnnw'n drowsus glas golau ac iddo orfod cerdded y tu allan yn yr awyr agored er mwyn iddo sychu cyn i Aeryn gael ei alw i fynd ar y llwyfan i adrodd! Dyna be oedd tro trwstan!

Teithiai dipyn i Dde Cymru i gystadlu ac yn Eisteddfod Pont-rhyd-y-groes enillodd chwe chyllell fach am adrodd dan 25 oed gyda Dai Jones, Llanilar, yn ennill rhai tebyg am ganu dan 25 oed!

Am 19 mlynedd bu Aeryn yn gweithio yng Nghartref Cysgod Y Gaer, Corwen, ble bu'n arddwr, yn handiman, yn dreifio'r bws ac yn helpio'r gogyddes ond un bore gorfu iddo baratoi uwd i frecwast i 32 o'r preswylwyr a hynny ar ei ben ei hun – llwyddodd ond bu raid iddo gael help ei wraig, Barbara!

Soniodd am lun ohono yn plygu gwrych o flaen y talwrn ceiliogod yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Dyma'r talwrn a fu ar un adeg y tu ôl i dafarn yr Hawk and Buckle yn Ninbych.

60 mlynedd yn ôl, bu'n cymryd rhan mewn Noson Lawen ar y radio gyda Huw Jones, Y Bala. Cawsom flas ar y ddeialog gan Aeryn a Rhys – doniol iawn!

I ddiweddu'r noson, ar nodyn mwy difrifol, adroddodd Aeryn,'Neges y Felin Ddŵr' a 'Rhanna dy Bethau Gorau.' Llywyddwyd a diolchwyd gan Aelwyn Lloyd, yntau hefyd o'r un ardal ag Aeryn a'r ddau wedi cyfarfod yn achlysurol mewn eisteddfodau lleol flynyddoedd yn ôl. Cawsom noson hwyliog yng nghwmni Aeryn a Rhys a braf oedd gweld Aeryn yn glana chwerthin wrth inni wrando ar Rhys yn traddodi pregeth ddoniol!!



Rhys, Aeryn ac Aelwyn

# MERCHED Y WAWR, DINBYCH a'r CYLCH

Bu tymor newydd Merched y Wawr gychwyn yn diweddar o dan gadeiryddiaeth ein is-Lywydd, Angharad Rhys oherwydd fod ein Llywydd am eleni, Nerys Davies yn sâl. Bu i 2 aelod newydd ymuno hefo ni, a chroesawyd nhw i'r cyfarfod. Llongyfarchwyd Buddug ar ddod yn nain (eto!) Bu'r aelodau yn cydymdeimlo gyda teulu y diweddar Meurig Voyle, gan grybwyll bu i Myfanwy Voyle fod yn aelod prysur a gweithgar tra'n aelod hefo ni.

Diolchodd Mary Mars-Lloyd i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at yr holl sioeau dros yr Haf.

Ein gwesteion am y noson oedd yr amryddawn Ynyr a Gwenan Mars Lloyd ac Osian Williams. Triawd sy'n brysur yn cystadlu mewn nifer o eisteddfodau lleol a chenedlaethol. Roedd ganddynt ystod eang o ganeuon i'n diddanu, ac roedd pob un hefo sglein dysgu arnynt. Diolchodd Angharad iddynt am ddod a storïau yn fyw yn eu caneuon.

Ym mis Hydref, roedd ein llywydd yn ôl yn y gadair, ond tro hyn roedd ein ysgrifenyddes wedi cael anffawd ac wedi torri ei ffêr, felly diolch i Cheryl, ein is-ysgrifennydd am sefyll fewn. Llongyfarchwyd Janet ar ddod yn nain am y tro cyntaf – mab i Lowri a Jorge, a LindaPasse yn nain i efeilliaid i Dafydd a'i briod. Llongyfarchwyd Llinos ac Elfed ar ddathlu eu priodas aur hefyd.

Atgoffwyd pawb o'r digwyddiadau i ddod, sef y Cwis Hwyl Cenedlaethol ar Dachwedd 9fed, a cystadlaethau'r Ffair Aeaf ddiwedd y mis hefyd. Fe roddodd Anwen grynodeb o'i phenwythnos preswyl Merched y Wawr, gan ddeud ei bod wedi mwynhau yn ofnadwy. Croesawyd Anwen Hughes o Brestatyn atom gan Mary Mars-Lloyd. Roedd ganddi arddangosfa o nifer o eitemau roedd hi wedi eu creu yn ddiweddar. Dwedodd ei bod wedi bod yn creu pethau ers yn eneth fach, ac mae'n amlwg o edrych ar ei gwaith fod ganddi ddawn arbennig i greu pethau trawiadol ymhob ffordd. Mae hi wedi ennill nifer o wobrau yng nghystadlaethau crefft Merched y Wawr yn rhanbarthol a chenedlaethol.

Ar Dachwedd y 7fed, byddwn yn croesawu a cael sgwrs gan 'Genod y Granar' ac yna ar Rhagfyr 5ed, byddwn yn dathlu'r Nadolig yn y Bod Erw yn Llanelwy. Cofiwch fod croeso i unrhyw ferch ymuno hefo ni – gan gynnwys y dysgwyr.

Rydym yn cyfarfod yn Festri Capel y Fron, ar y nos Fercher cyntaf y mis am 7.30yh



Osian, Gwenan ac Ynyr



Arddangosfa o waith Anwen Hughes o Brestatyn

## Cymdeithas Gymraeg Dinbych

Ar Nos Wener, Hydref 19eg cynhaliwyd cyfarfod agoriadol ein tymor newydd, sef Noson Gerddorol yng nghwmi Gwenan Gibbard.

Cyflwynwyd a diolchwyd gan Nerys Ann Roberts, llywydd y Gymdeithas.

Mair Spencer a DorothyBartley oedd yn gyfrifol am y baned.

Cafwyd noson ddifyr iawn a chriw da yn bresennol.

Erbyn hyn, mae Tom Williams, y trysorydd, wedi gwerthu rhaglen y tymor i'r mwyafrif naill ai yn ein bore goffi ym Medi neu yn y cyfarfod agoriadol. Felly, bydd ychydig mwy o sôn am y cyfarfodydd yn nyddiadur Y Bigwn ayyb rwan - nid oeddem am ddweud gormod yn rhy gynnar rhag ofn amharu ar werthiant y rhaglen!

Yn gyffredinol, mae ein cyfarfodydd ar Nos Wener gyntaf pob mis o Hydref hyd fis Mawrth ond, weithiau, mae'n rhaid newid o hyn oherwydd y siaradwr - ac felly y bu y mis yma.

Unrhyw ymholiad, cysyllter a Dilwyn Jones, Ysgrifennydd, ar 07500538714 neu dilwyn@boyns.wales



Diolch, Berwyn.



Nerys Ann a Gwennan Gibbard.

## CAPEL BRWCWS

Agorwyd yr Ysgol y Sul, Medi 23ain gan Elin Jones a'r genod Magi a Gwen hefo stori Joseff y Saer.
Mr Dennis Davies oedd y pregethwr yn Oedfa y pnawn. Eleanor Roberts oedd yr organyddes. Anfonwyd ein dymuniadau gorau at Brian Thomas.
Edna Williams fu yn agor yr Ysgol Sul. Yn y prynhawn cafwyd gwasanaeth dan ofal Gwilym Williams. Dymunwyd yn dda i'r Parch. Eifion Jones oedd wedi methu bod gyda ni. Carolyn Thomas oedd wrth yr organ.
Prynhawn Dydd Iau, Hydref 4ydd cynhaliwyd ein Cyfarfod Gweddi Diolchgarwch. John Alwyn Jones, Dilwyn Jones a Rhianwen Williams fu yn cymryd rhan. Yn yr hwyr cawsom ymuno gyda Cyfarfod Diolchgarwch undebol y dref yng Nghapel y Fron.
Y Parch. Marcus Robinson oedd y pregethwr gwadd.
Hanes Thomas a Mary Gee, a’r fedal sydd yn cael ei chyflwyno i selogion yr Ysgol Sul, a gafwyd gan Iona Roberts, Mari a Beca fore Sul, Hydref 14eg. Croesawyd Karen Jones a'r plant Arthur, Flora a Henry atom.
Parch. Nesta Davies fu yn cynnal oedfa'r prynhawn. Eleanor Roberts oedd wrth yr organ.
Nos Fercher, Hydref 17eg yng Nghymdeithas Chwiorydd y Fron a'r Brwcws bu Eirian Jones yn rhoi sgwrs am Fwydydd Cyflawn. Carolyn Thomas fu yn gofalu am y rhan ddefosiynol gyda Eleanor Roberts yn cyfeilio. Paratowyd y baned gan Enid Thomas ac Edith. Talwyd y diolchiadau gan Rhianwen Williams.



Dydd Sul, Hydref 7ed aeth criw ohonom i Felin Brwcws i ginio. Diolch i Edna Williams am wneud y trefniadau.



**Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru**

DBP
Home Improvements N.Wales

**Tŷ DBP**
**Stad Ddiwydiannol Colomendy**
**Dinbych.**
**Ffôn: Mike Hargraves ar 01745 815555**
**Symudol: 07778752822**

**Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.**




**Diolch i’n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.**

**Ffenestri U-PVC, Unedau wedi’u selio, Drysau, Ystafelloedd Gwydr, Portshys, Cynnyrch Roofline, Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.**

## Capel Pendref

Yn ystod mis Hydref cynhaliwyd oedfaon bendithiol dan arweiniad Y Parch Tudur Rowlands, Mr T I Williams, Mrs Enid Davies a chadeirydd Synod Cymru y Parchedig Ddr Jennie Hurd. Blaenor y mis oedd Heulwen Ellis gyda Gwyn Williams yn arwain y canu a Vera Savage yn cyfeilio.
Prynhawn dydd Mawrth, Hydref 2il, cynhaliwyd cyfarfod blynyddol yr Eglwys dan arweiniad ein gweinidog, y Parch Tudur Rowlands. Trafodwyd yr adeiladau, diogelwch o fewn yr adeilad, ariannu a threfn gwasanaethau ar gyfer 2019. Diolchwyd i'r holl aelodau am eu cyfraniadau ariannol hynod o hael yn ystod y flwyddyn. Diolchwyd i'r holl swyddogion am eu gwaith ac fe'u hail etholwyd 'en bloc' am flwyddyn arall.
Yn dilyn y cyfarfod blynyddol cynhaliwyd cyfarfod arbennig er mwyn i'r aelodau gael y cyfle i drafod y cynllun i uno Synod Cymru a Wales Synod i ffurfio un Synod dwyieithog newydd dros Gymru. Y cam nesaf fydd i Ardal Dyffryn Clwyd drafod y cynllun.
O'r diwedd newyddion da ynglŷn â tho'r capel a'r festri. Cytunwyd cytundeb a chontractwr newydd. Mae'r sgaffaldau bellach wedi eu gosod a'r gwaith ar fin dechrau Yr ydym fel eglwys yn hynod ddiolchgar am amynedd a chefnogaeth y Gylchdaith a'r Synod. Ar ôl cwblhau'r gwaith ar y to bydd angen symud ymlaen a'r gwaith o drwsio'r nenfwd - hyfryd o beth fyddai gweld yr holl waith wedi ei orffen a chael ail agor y capel yn y Gwanwyn - cawn weld!!.

Byddwn yn cynnal ein cinio blynyddol dydd Sadwrn Tachwedd 10fed ym Melin Brwcws am hanner dydd.



Prynhawn dydd Mercher,Hydref y 10fed, daeth nifer o'r aelodau ynghyd yn festri uchaf y capel i drafod, hel syniadau a chynllunio ar gyfer y Ffair Nadolig a gynhelir yng Nghanolfan Eirianfa dydd Sadwrn, Tachwedd 17eg,



Mae'r Rheilen Gymun a fu'n yn harddu'r Sedd Fawr yng Nghapel Peniel, Llanelwy, bellach wedi ei haddasu a'i gosod yn Festri Uchaf Pendref. Cynlluniwyd y rheilen wreiddiol gan y Parch Cledwyn Parry. Addaswyd y rheilen ar gyfer Pendref gan Gareth Jones o gwmni Celtic Dreams Ironworks, Dinbych. Bu Gwyn Williams yn brysur yn paentio a thacluso'r rheilen ac fe'i gosodwyd yn ei lle gan Hywel Evans a Gwyn Williams. Ein diolch i Gareth, Gwyn a Hywel am eu gwaith.

## Aelwyd Capel Mawr

Mair Jones ddechreuodd cyfarfod mis Hydref drwy ddarllen cerdd T. Rowland Hughes i "Harddwch"
Croesawyd bawb gan Helena Williams, a braf oedd gweld Eirwen Evans yn ôl wedi gwaeledd.
Ein siaradwraig wadd oedd Mrs Cath Williams, Llansannan, a chroesawyd hithau gan y llywydd.
Roedd wedi dod i roi sgwrs am rai o deithiau beic oedd hi a'i gwr Alwyn wedi wneud. Roedd ganddi luniau arbennig o dda wedi eu tynnu gan Alwyn, a chawsom brynhawn difyr iawn yn mynd gyda hwy ar deithiau o gwmpas Llyn Tegid, Llyn Efyrnwy a Llyn Trawsfynydd. Cawsom hanes diddorol llawer o lefydd ger y llynnoedd hyn, fel Eglwys Sant Beuno, giât mynwent Llanuwchllyn, ei atgofion o Ganolfan yr Urdd yn Glanllyn, hanes yr hen bentref yn Efyrnwy a llawer o lefydd o ddiddordeb ger Llyn Trawsfynydd.
Difyr iawn hefyd oedd hanes y daith hollol wahanol i'r Iseldiroedd lle mae mwy o feics na phobl !
Diolchwyd i Cath gan Olwen Roberts, ac i Carys Jones a Dorothy Bartley am baratoi paned. Mae mor braf cael eistedd a chymdeithasu ar ôl y cyfarfodydd hyn. Buom yn meddwl am y rhai sydd dim yn dda ar hyn o bryd, a dymunwn y gorau iddynt.

## Y Capel Mawr a Seion

Cadwyd at y traddodiad gan eglwysi rhan uchaf y dref o gynnal cyfarfod gweddi o ddiolchgarwch am y cynhaeaf ar fore'r dydd Iau cyntaf o fis Hydref.
Y tro hwn yn Y Capel Mawr y bu'r oedfa gyda'r Parch. Graham Floyd, Mr Gwyn Williams a Mr Stan Lyall yn cymryd rhan ar ran Lôn Swan, Pendref a'r Capel Mawr. Braf oedd gweld Mrs Doris Williams yn ôl wrth y piano.
Mr Dennis Davies, Llanrwst, oedd y cennad ar nos Sul, Medi 23ain. Croesawyd ef gan lywydd y mis, Mrs Angharad Rhys, a Mrs Dorothy Rogers oedd y cyfeilydd.
Cafwyd cwmni'r Parch. Eifion Jones ar fore olaf y mis pryd yr oedd Mrs Dorothy Rogers wrth yr organ.
Y Parch. Nesta Davies oedd yn ein harwain ar nos Sul, Hydref 7fed. Y cyfeilydd oedd Mrs Catrin Warren.
Ar fore Sul, Hydref 14eg, croesawodd Mr Ifor John Jones, llywydd y mis, y Parch. Ddr. Elfed ap Nefydd Roberts, Abergele, atom. Mrs Catrin Warren oedd yr organyddes.



## Capel Y Fron

Bore Sul Medi 23ain croesawyd Mr Dennis Davies, Llanrwst atom a'r organyddes oedd Iona Edwards. Eto eleni fe gawsom Ffair Hydref lwyddiannus iawn bore dydd Sadwrn Medi 29ain. Diolch i bawb wnaeth gyfrannu a chefnogi ac i Mrs Wendy Lloyd Jones am ofalu am yr arian. Roedd yr elw yn £560. Diolch yn fawr.
Nos Sul Medi 30ain fe wnaeth Gaynor Prew estyn croeso i'r Parch Eifion Jones ac hefyd i Eilir a Mirain. Yr organyddes oedd Eiri Jones.
Tro ni yn y Fron oedd trefnu gwasanaeth Diolchgarwch undebol nos Iau Hydref 4ydd. Braf iawn oedd gweld cynulleidfa deilwng iawn i wrando ar y Parch Marcus Robinson yn pregethu a'r organyddes oedd Eiri Jones.
Bore Sul Hydref 7fed yr oedd Wendy Lloyd Jones wedi trefnu Cyfarfod Gweddi gyda Gaynor Prew, Gwyrfai Jones ac Eleri Jones yn cymryd rhan gyda Glyn Jones (Capel Mawr) yn cloi y gwasanaeth a'r organyddes oedd Iona Edwards.



Trysorydd Hapus

Nos Sul Hydref 14eg fe gawsom estyn croeso i'r Parch Dr. Elfed ap Nefydd Roberts atom gyda Iona Edwards wrth yr organ.

**Cymdeithas Chwiorydd Y Fron ar Brwcws**

Nos Fercher Hydref 17eg fe ddaeth Eirian Jones, Rhuthun atom. Yr oedd Eirian a'r teulu yn aelodau yma yn y Fron ac yn hynod o weithgar ac yn cefnogi bob gweithgaredd felly pleser oedd cael ei chroesawu. Fferyllydd ydi Eirian ac wedi gweithio yma yn



Stondin jam ond be sy'n y botel, Beti?



Tair Chwaer

Ninbych ac rwan yn gweithio yn yr Wyddgrug a Rhuthun. Hi hefyd ydi perchennog siop Wholefoods, Rhuthun. Siop ydi hon sydd yn cadw bwydydd cyflawn. Yr oedd wedi dod ac amryw o'r cynnyrch sydd ganddi i'w gwerthu a rhinweddau bob un. Noson gartrefol, addysgiadol a difyr iawn. Yr oedd y rhan ddefosiynol wedi ei baratoi gan Carolyn Thomas a Elinor Roberts wrth y piano. Fe wnaeth Edith Jones a Enid Thomas ofalu ein bod yn cael paned o dê a talwyd y diolchiadau gan Rhianwen Williams.



Cymryd y gwaith o ddifri!

**MEIRION DAVIES A'I GWMNI**
**01745 812400**
**Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych**

- Dillad a phethau fferm
- Bwyd anifeiliaid anwes
- Esgidiau a.y.b.
- Tegannau plant - a llawer rhagor

CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones

# Ail-agor Llyfrgell Dinbych

Cafodd y gwaith o adnewyddu Llyfrgell a Siop Un Alwad Dinbych ei ddathlu mewn agoriad swyddogol ddechrau mis Hydref. Bu'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, Arglwydd Elis-Thomas, yn agor y cyfleuster yn swyddogol Ddydd Iau, Hydref 4ydd.

Roedd y gwaith yn cynnwys gwaith ail-addurno helaeth i greu mynedfa ddeniadol, agored a hyblyg ar gyfer gwasanaeth llyfrgell modern a siop un alwad.

Gan gynnal cymeriad yr adeilad hanesyddol eiconig hwn, roedd y gwelliannau hefyd yn cynnwys uwchraddio ardal Gwybodaeth i Ymwelwyr, parth Technoleg Gwybodaeth / Dysgu newydd, silffoedd modern, dodrefn a lloriau newydd, gydag ardal ymlacio a wi-fi am ddim i gwsmeriaid.

Agorwyd y cyfarfod gyda gair o groeso gan Peter Scott, Cadeirydd y Cyngor Sir, ac yna, yn absenoldeb Hugh Evans arweinydd Y Cyngor bu Rhys Thomas, Cynghorydd Dinbych Isaf, yn ein croesawu yn Gymraeg.

Dywedodd yr Arglwydd Elis-Thomas: "Rwy'n falch iawn o ymweld â'r datblygiad newydd yn Ninbych wrth i ni baratoi i ddathlu'r hyn y gall ein llyfrgelloedd gynnig cymunedau ledled Cymru. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi gweld y gwelliannau y mae cronfa drawsnewid Llywodraeth Cymru eisoes wedi'u gwneud wrth greu mannau disglair, modern a chroesawgar i bawb.

"Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i gefnogi'r gwasanaethau pwysig hyn sy'n hyrwyddo ymgysylltu diwylliannol, darparu cyfleoedd dysgu a chefnogi cydlyniant a ffyniant cymunedol - a chwarae rhan allweddol yn ein lles."

Braidd yn siomedig oeddwn fod yr araith yn gyfan gwbl yn Saesneg heblaw am ddarn o farddoniaeth yn Gymraeg, Mae'n syndod na fuasai ein Gweinidog Diwylliant wedi defnyddio'r iaith yn enwedig gan fod darpariaeth cyfieithu ar y pryd.

Dywedodd y Cynghorydd Richard Mainon, Aelod Arweiniol Cabinet Sir Ddinbych ar gyfer Gwella Seilwaith Cymunedol: "Rydym wedi ymrwymo'n gadarn i fuddsoddi yn ein llyfrgelloedd, gan eu bod yn chwarae rhan hanfodol ym mywyd y gymuned. Mae'r amser yn newid ac mae galw clir i'n llyfrgelloedd i ddod yn fwy o ganolbwynt cymunedol, gan ddod â gwasanaethau eraill o dan yr un to a dod yn siop un alwad i gwsmeriaid.

"Mae'r buddsoddiad a welwyd gennym yn Ninbych yn ddarn sylweddol o'r jig-so buddsoddiad ac rydym yn falch o'r cyfleusterau newydd sbon sydd gennym yno. Maent yn adlewyrchu ein gweledigaeth i greu llyfrgelloedd modern, addas i'r diben.

Ariannwyd y buddsoddiad gan Gyngor Sir Ddinbych a rhaglen Grant Cyfalaf Trawsffurfio Adran Amgueddfeydd Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

Cafwyd hefyd ychydig eiriau gan Bethan Hughes Prif LyfrgellyddSir Ddinbych a diolchodd i'r staff a phawb arall fu'n ymwneud â'r datblygiadau.










## Atebion Hydref 2018

**Ar Draws :**
1. Gloddest
5. Ymbwylla
9. Anterliwt
10. Ennyn
11. Penblwydd Hapus
13. Dosrannu
15. Anunol
17. Yr Aifft
19. Dadleoli
22. Electromagned
25. Idiom
26. Trwynflew
27. Dylunio
28. Seisnig


**I Lawr :**
1. Gwan
2. Octopws
3. Eirin
4. Tsiblins
5. Ystlys
6. Brenhinol
7. Y Cnapan
8. Annisglair
12. Adfynegiad
14. Amffetamin
16. Paradwys
18. Apeliol
20. Oedolyn

# CROESAIR TACHWEDD 2018




**Ar Draws :**
9. Aer i mewn, neu allan
10. Swm uwch na'r hyn sy'n ddyledus
11. Gweithle artist
12. Lle i sefyll
13. Erchyll
15. Lle cesglir pres ee i groesi pont
16. Mae'n dathlu penblwydd yn ddeugain eleni (4,5,6)
19. Gwefreiddiol o oer
21. Yn symud o chwith
22. Helaethdra
24. Lluosog
27. Lle gofelir am blant – neu blanhigion!
28. Elfen â'r symbol Ag, metal gwerthfawr

**I Lawr :**
1. ".... Llŷn a menyn Eifion" ?
2. Cynnwrf
3. Canmoliaeth
4. Nid yw'n adnabod Duw
5. Ardal Pegwn y Gogledd
6. Caiff ei smygu mewn cetyn
7. "Hel a didol ......" yw camp ci defaid
8. Wyneb mae golau yn "adlamu" oddi arno
13. Y grefft o stwffio anifail
14. Yn ymwneud â chorff mawr o ddŵr
15. Cylch rwber ar olwyn
17. Adran llai
18. Un sy'n cynorthwyo adeg genedigaeth
20. Trydan llonydd
21. Rhedeg i ffwrdd
23. Ar rhain mae mes i'w cael
25. Cwmni drama, Y .... Wen
26. Culfor rhwng ynys a'r tir mawr






## Shwmae Su’mae?!

Cynhaliwyd diwrnod Shwmae Su’mae ddydd Llun 15 Hydref, gyda gweithgareddau yn cael eu cynnal ledled Cymru er mwyn annog i bawb gychwyn pob sgwrs yn Gymraeg. Mae Dathlu’r Gymraeg, y mudiad ambarél tu ôl i Shwmae Su’mae wedi sefydlu gwreiddiau cadarn dros y pedair blynedd ddiwethaf diolch i ymdrechion ar lawr gwlad. Dywed Rebecca Williams, Cadeirydd Dathlu’r Gymraeg: “Mae Dydd Shwmae Su’mae’n gyfle i ddathlu’r iaith – ac i sicrhau’r nifer fwyaf o gyfleoedd posib i’w defnyddio – drwy gyfarch yn Gymraeg ar y dechrau, yn hytrach na diolch yn Gymraeg ar y diwedd!”

Cefnogwyd yr ymdrech yn Sir Ddinbych gan sefydliadau megis ysgolion, llyfrgelloedd, swyddfeydd a busnesau, gyda llawer o negeseuon yn cael eu rhannu ar Facebook a Twitter. Cafodd criw o blant gyfle i ledaenu’r neges yn ystod Gŵyl Fwyd Llangollen wrth gymryd rhan mewn gweithgaredd i hybu’r Gymraeg gyda Menter Iaith Sir Ddinbych.

Cafwyd ychydig o hwyl hefyd wrth ddathlu cerrig milltir Popeth Cymraeg a’r Amgueddfa Gwefr Heb Wifrau fel y gwelir yn y lluniau.

Chwiliwch yr hashnod #ShwmaeSumae i weld rhai o’r negeseuon.




Mair Spencer a dosbarth o ddysgwyr



Hawys a Mabli



Alun a Lil



Richard Snelson



Dylan Cernyw



Barbara a Vesi

"Cefnogwch Hysbysebwyr Y Bigwn"

PyBj



GWAITH SAER PEN-YBRYN Cyf

*Arbenigwyr Gwaith Coed a Lloriau*

Gwaith coed i gyfarfod â’ch holl ofynion

Ffôn:01745 815481 Facs:01745 814332

e-bost:mail@penybrynjoinery.co.uk

# Dona Direidi





Ar fore Sadwrn y 29ain o Dachwedd ac fel rhan o ddigwyddiadau codi arian Pwyllgor Apêl Dinbych Urdd 2020 cafodd nifer o blant Dinbych a'r cyffiniau y cyfle i gyfarfod Dona Direidi. Roedd Neuadd Twm o'r Nant yn llawn bwrlwm o ganu a dawnsio a'r plant wrth eu boddau. Diolch i Elen W Jones am y trefniadau. Roedd yn fore llwyddiannus iawn.



Beca a Sion



Mati Nel a Leusa Jen






## Ysgol Twm o'r Nant

Mae hi wedi bod yn hanner tymor prysur yma yn Ysgol Twm o'r Nant. Rydym wedi croesawu 40 o blant bach newydd i'r Dosbarth Meithrin eleni ac mae pawb wedi setlo i mewn yn arbennig o dda ac wedi mwynhau dod i'r ysgol bob dydd. Ein thema am yr hanner tymor ydi Ffrindiau ac mae'n gyfle gwych i ni ddod i adnabod ein gilydd ac i wneud ffrindiau newydd. Rydym yn dysgu am edrych ar ôl ein cyrff a sut i gadw'n iach trwy fwyta'r bwydydd cywir, ymarfer ein cyrff a chadw'n lân.

Dyma rai o'r plant yn mwynhau yn ein ardaloedd chwarae rôl o fewn yr uned – yn Siop Bwydydd Iach Twm, yng nghaffi Candi ac yn y Clinig Babis.










Cafwyd gwasanaethau diolchgarwch arbennig gan blant bach y cyfnod sylfaen ac yna'r plant hynaf ar Fore Mercher, Hydref 10fed. Dysgwyd sawl cân a buom yn diolch am y wlad yr rydym yn byw ynddi, gan werthfawrogi ei harddwch.

Fel rhan o thema plant yr uned dan 9 ar y Goedwig Wyllt, aethon nhw ar drip i goedwig Loggerheads a choedwig Maeshafn. Cafwyd diwrnod bendigedig yn mynd am dro i weld y byd natur anhygoel. Diolch i Iwan, Amy a Tom am ein tywys o gwmpas.

Yn yr Uned Dan 7, cafwyd sgwrs diddorol tu hwnt gan Mr Owain Roberts o gwmni Llaeth y Llan yr hanner tymor hwn. Roedd y plant wrth eu boddau yn cael gweld lluniau o'r ffatri ac yn dysgu sut oedd iogwrt Llaeth y Llan yn cael ei gynhyrchu.



Cafodd plant o Flwyddyn 2 brynhawn yn llawn hwyl a sbri yn y Jambori yn Rhuthun. Braf oedd gweld a chlywed plant ysgolion y fro yn canu ac yn dawnsion gyda Martin Geraint a Mr Urdd!

# Ysgol Glan Clwyd

Llongyfarchiadau i Mrs Elin Morris a Ms Gwenllian Edwards ar enedigaethau dros yr haf, Mrs Morris wedi cael merch a Ms Edwards ei thrydydd mab.

Ar bore Iau, Medi 27ain bu bore coffi wedi ei drefnu gan myfyrwyr bl 12 er budd 'Gofal Cancr Macmillan'. Gwnaed elw o £175.27. Da iawn chi.

Mae criw o ddisgyblion bl 11 wedi bod yn cynnal gemau pêl-droed i godi arian tuag at Ward Plant (Paddington) yn Ysbyty Glan Clwyd. Maent wedi casglu £358.50. Da iawn chi!

Llongyfarchiadau i'r disgyblion hynny a gafodd y sgoriau "parodrwydd i ddysgu" gorau ymhob blwyddyn. Cawsant sgwrs dros baned a chacen gyda'r Pennaeth yn ystod amser egwyl wythnos yn ôl.

**Noson Agored.**

Ar nos Iau, Hydref 4ydd, cafwyd Noson Agored llwyddiannus ar gyfer darpar ddisgyblion. Roedd pob adran yn llawn bwrlwm gyda gwahanol weithgareddau yn cael eu cynnal.

Llongyfarchiadau i Brannon Liston Smith (bl 13)ar dderbyn Ysgoloriaeth Corawl i Goleg Oriel, Rhydychen

## *Newyddion o'r Adrannau*

***Adran Addysg Gorfforol***

Llongyfarchiadau mawr i dim merched dan 13 Ysgol Glan Clwyd wrth ennill 15-3 yn erbyn Prestatyn. Ymlaen i'r rownd nesaf rwan. Nifer o'r merched yma ym ml 7. Llongyfarchiadau i Megan Galeandro ar sgorio 7 gôl yn y gem yma!

Llongyfarchiadau i Josie Smith ar gael ei dewis i fod yn nhîm pêl-droed merched dan 17

Llongyfarchiadau i dîm Dan18 YsgolGlanClwyd am ennill 5-2 yn erbyn tîm Coleg Meirion Dwyfor yng nghwpan Dan 19 Peldroed Ysgolion Cymru. Ymlaen i'r rownd nesaf rwan.

Llongyfarchiadau i Llinos Jones a Llio Bryn (6ed dosbarth) am gael eu dewis fel Llysgenhadon Aur y Sir.

Llongyfarchiadau mawr i Joel Rizzi ar ei lwyddiannau diweddar ym myd beiciau modur!

***Yr Adran Dyniaethau***

Braint oedd croesawu Dr Hywel Griffiths o Adran Daearyddiaeth a Gwyddor Daear, Prifysgol Aberystwyth i roi darlith i fyfyrwyr Daearyddiaeth blwyddyn 13. Rhoddwyd darlith wych ac addysgol am 'Llifogydd: nodweddion, rheolyddion ac effeithiau'. Trafodwyd y rhesymau dros lifogydd, natur llifogydd a'r dulliau i'w rheoli yn y dyfodol. Edrychwn ymlaen at ei groesawu yn ôl blwyddyn nesaf. Cafodd disgyblion Daearyddiaeth blwyddyn 10 brofiad o Ddaearyddiaeth yn y maes wrth ymweld ag amddiffynfeydd llifogydd Llanelwy. Roedd yn gyfle ardderchog iddynt brofi argloddiau, waliau llifogydd a gweld pont newydd Spring Gardens ac astudio sut mae'r rhain yn amddiffyn Llanelwy rhag llifogydd. Edrychwn ymlaen am fwy o waith maes yn y flwyddyn newydd.

***Yr Adran Wyddoniaeth***

Mae 7 myfyriwr o fl12 ar hyn o bryd yn gweithio ar y prosiect peirianneg eto ac wedi cael eu partneru gyda Npower i ddatrys problem ar y tyrbinau gwynt ar Gwynt y Mor

Mae 6 o fyfyrwyr Bl13 wedi cael eu ddewis eto i fynd i Birmingham er mwyn arddangos *prototype* sydd yn gallu helpu trin ac ail-gylchu carthffosiaeth fel biodanwydd.








## *Cwis Pop Radio Cymru*

Llongyfarchiadau i'r tîm ar ennill yn erbyn Ysgol Maes Garmon yn ddiweddar. Cofiwch wrando ar Radio Cymru i weld pryd fyddant yn cystadlu eto.

Pob lwc i Mali Elwy ac Ifan Mars Jones ar eu taith gyda'r Urdd i Patagonia. Cewch eu hanes yn y rhifyn nesaf.

# Â é á ô ŷ ŵ î ê ï û ő ȕ ë ò

Pan oeddwn i'n dysgu "sgwennu sownd" gyda phin dur amser maith yn **ô**l byddai dau beth yn fy nghadw yn effro yn y nos.

A fyddai rhyw gena' wedi gosod papur blotio yn y potyn inc? Byddai hynny yn achosi penbleth i una oedd yn hynod o nerfus a hynod o drwsgl.

Yn ail, byddai geiriau'r athrawes yn atseinio yn fy nghlustiau, "Byddwch yn ofalus o'ch pin dur. Os byddwch chi'n malu'r nib, chewch chi ddim un arall yn ei le fo tan flwyddyn nesaf."

Does ryfedd nad oeddwn i'n hoff o fynd i'r ysgol nac yn hoff o athrawon!

Ond er tegwch i'r athrawon yn y ddwy ysgol gynradd a fynychais i, fe wnaethon nhw ddysgu'r pethau sylfaenol yn drylwyr iawn imi – pethau fel tablau, treigladau a sillafu.

Roedd cael prawf sillafu bob wythnos yn y ddwy iaith yn rhoi cychwyn da i rywun.

Roedd y profion hynny yn gyfrwng i rywun gofio ym mha eiriau roedd angen dyblu'r **n** ac **r** a pha bryd roedd angen gosod acen grom – y to bach bondigrybwyll.

Un adnod dda a ddysgais oedd, "Cofiwch fod angen to ar y t**ŷ** ond does dim angen to ar y to."

Does gen i, fodd bynnag, ddim cof o orfod defnyddio rhai o'r symbolau sydd yn bennawd i'r golofn hon tan imi ddechrau dysgu Ffrangeg yn yr ysgol uwchradd.

Ond dros y blynyddoedd diwethaf maen nhw wedi treiddio i mewn i'r iaith Gymraeg fel madarch yn ymddangos dros nos yn y caeau.

Un rheswm dros eu dyfodiad ydy' benthyciad geiriau o'r Saesneg. Ia, yr hen fwgan eto.

Cymerwch y gair **mwg**. Bellach y mae'n golygu dau beth – cwmwl a gwyd o rywbeth sy'n llosgi neu gwpan goman sydd yn fwy o'r hanner na'r un oedd yn rhan o lestri te hardd eich nain ers talwm.

Felly y mae'n rhaid gwahaniaethu rhwng y ddau air, a'r ffordd o wneud hynny gan rai ydy rhoi acen grom uwchben y gair gwreiddiol mwg a'i droi yn m**ŵ**g.

Gallaf, mi allaf dderbyn hynny.Wel, o leiaf mi rydwi wedi derbyn hynny.

Ond pan ddown at eiriau mwy … ym… ym ….urddasol eu naws ddywedwn i, y mae pethau'n mynd ychydig yn fwy cymhleth.

Cymerwch y gair amg**á**u, sef cau i mewn, cynnwys o fewn, amgylchu, cwmpasu.

Mae'n rhaid nad oedd y gair yna yn bodoli pan oeddwn i'n yr ysgol.

Ond y mae yna ffurf fwy crand ar y gair yn cael ei defnyddiogan rai on'd does, sef amga**eë**dig.

Yn gyntaf mae yna ddwy **e** ynddo fo….. a'r holl athrawon clyfar yna wedi d'eud wrtha i ers talwm mai **n** ac **r** oedd yr unig ddwy lythyren oedd yn dyblu!

Ond mae hwn efo rhyw **ë** ynddo fo. O b'le daeth hon i'r Gymraeg?

Mae'n rhaid fy mod i'n absennol efo'r frech goch pan wnaeth MissRoberts gyflwyno'r **ë** fawreddog hon i Standard 5.

Ydy'r **ë** hon yn werth mwy mewn g**ê**m o Sgrabl na'r **e** gyffredin? Ydy hi'n sgorio'n ddwbl?

Etoi gyd, yn **ô**l y llyfryn **Canllawiau Iaith a Chymorth Sillafu** gan J. Elwyn Hughes amg**aee**dig ydy'r ffurf gywir ar y gair. Dim golwg o **ë** yn agos i'r gair. S**ô**n am fynd â dyn i'r gors.

Â é á ô ŷ ŵ î ê ï û ő ȕ ë ò – pethau fel hyn ddylai'r gwleidyddion ym Mae Caerdydd, San Steffan a Brwsel eu trafod yn hytrach na gwastraffu eu hynni ar y Brexit bondigrybwyll 'ma!

Gyda'ch caniat**â**d fe adawaf y mater yn y fan yna gan nad ydy gofod yn caniat**á**u treulio mwy o amser ar y testun hynod o ddiddorol hwn.

………………………………

Fedar unrhyw un ohonoch esbonio imi pam nad oes yna groesfan i gerddwyr ar Ffordd Y Rhyl yn y dref hon?

Mae yna ddwy ysgol gynradd fawr, cannoedd o dai a nifer o siopau yn y cyffiniau hyn,

Mae ugeiniau o blant ac oedolion yn croesi'r ffordd brysur hon er mwyn dal y bws i gyfeiriad Y Rhyl.

A dim un croesfan pelican yn agos i'r lle heb sôn am gyfyngu ar gyflymdra gyrru i 20 milltir yr awr!

Dim ond taro'r post i'r pared glywed.

**S t a n L y a l l**

# Adolygiad o "Dwyn i Gof" gan Meic Povey

Roeddwn wedi edrych ymlaen at gynhyrchiad Cwmni Bara Caws o'r ddrama "Dwyn i Gof" yn Theatr Twm o'r Nant, ac ni chefais fy siomi. Drama olaf Meic Povey, drama am bwnc amserol iawn, am ddyn sydd yn colli ei gof.

Mae cyfrinachau y gorffennol yn cael eu datgelu a chodi hen grachod yn sgil hynny. Cawsom berfformiadau gwych o'r dechrau i'r diwedd. Roedd yr actio yn benigamp.

Llion Williams sy'n portreadu Huw y dyn 60 oed a'i gof yn dadfeilio, dyma actor sydd yn gallu mynd o dan groen cymeriad, roedd bob gair ac ystum ganddo yn hollol gredadwy.

Gwenno Ellis Hodgkins sydd yn actio Bet – gwraig i Huw ers 40 mlynedd, actores naturiol sydd yn medru cyfleu cymeriad mewn unrhyw sefyllfa. Dangosodd mor anodd yw i ŵr neu wraig ddelio efo salwch creulon y cymar. Roedd y cyflwr yma'n cael ei guddio a'i ddatgelu, ac fe welais y rhesymeg dros wneud hynny, gwn am lawer sydd yn wynebu yr un gwewyr gyda'u hanwyliaid.

Cawsom ddau ifanc gwych i bortreadu Gareth y mab a Cerys ei gariad, sef Rhodri Meilir a Sara Gregory, y ddau yn cecru am gyfrinachau'r gorffennol ac yn ofni y presennol a'r dyfodol.

Cafwyd cast cryf, dangoswyd densiynau oedd dan yr wyneb a rheini'n cymhlethu'r berthynas fregus oedd rhwng y difri a'r doniol.

Roedd y cyfarwyddo yn gryf a chelfydd, y symud o un olygfa i'r llall yn slic, gan ddefnyddio goleuadau i gyfleu awyrgylch y mynd a'r dod o'r llon i'r lleddf. Roedd y set yn syml ond yn effeithiol ac yn ychwanegu at naws y ddrama.

Oedd, mi roedd Meic Povey yn nabod pobol, a theimlwyd hyn yn amlwg yn y cyflwyniad yma – ei ddrama olaf ac mewn llawer o'i ddramau. Bydd colled i Gymru am un mor arbennig.

## Pwyllgor Apêl Tref Dinbych – Eisteddfod Yr Urdd 2020

Bu misoedd Medi a Hydref yn gyfnod prysur iawn i'r pwyllgor Apêl gyda nifer o ddigwyddiadau wedi eu cynnal yn cynnwys Noson Rhostio Mochyn a drefnwyd gan Gymdeithas y Bigwn, Noson gyda'r Brodyr Magee, Ocsiwn Addewidion a Bore gyda Dona Direidi. Diolch i bawb a fu'n rhan o'r trefnu ac i bawb oedd wedi rhoi addewidion ar gyfer yr ocsiwn. Gwnaethpwyd dros £4000 o elw ar y noson.

Mae nifer o ddigwyddiadau ar y gweill hefyd yn cynnwys Noson gyda Osian Roberts a Candelas, noson gwis a llawer mwy. Cofiwch hefyd bod modd archebu nwyddau yr Eisteddfod drwy'r swyddfa yn Ninbych.

Os hoffech drefnu gweithgaredd, cofiwch gysylltu ag aelodau'r pwyllgor.



**Côr Meibion Dinbych a'r Cylch yn Dathlu 30 mlynedd**
**yn**
**Y Gadeirlan, Llanelwy**
**Nos Sadwrn 24ain Tachwedd 2018**
**am 7.30 yh**
gyda
**CARYL PARRY JONES - GERAINT CYNAN**
**CÔR CYTGAN CLWYD**
Tocynau £10
Siop Clwyd a Siop Siocled Dinbych, Siop Elfair,Rhuthun neu aelodau'r Côr Meibion :
Ymholiadau 01745 814753




Y Brodyr Magee



Le Maillot Jaune



Glyn yr ocsiwniar

# CLWB RYGBI DINBYCH

Yn dilyn dwy fuddugoliaeth wych gyda phwyntiau bonws i gychwyn y tymor, bu'n rhaid wynebu realiti wrth deithio i Bwllheli, y tîm a orffennodd y tymor diwethaf yn ail safle'r Adran Gyntaf. Profodd y tîm cartref yn llawer cryfach na Dinbych, ac adlewyrchwyd hyn yn y sgôr terfynol o 59-17. Derbyniwyd gwers arall gan yr ymwelwyr o Landudno, gyda'r tîm hwnnw'n symud i frig y tabl ar ôl ennill o 33-5.

Parhaodd record 100% yr Ail Dîm yn y Gynghrair gyda buddugoliaeth o 25 -11 gartref yn erbyn Machynlleth, unwaith eto gyda phwynt bonws. Sgoriodd dau frawd, sef Rhys ac Iwan Johnson gais yr un. Yn anffodus, daeth y rhediad hwn i ben ym Mhen Llŷn yn erbyn Ail Dîm Pwllheli, gyda'r tîm cartref yn ennill gêm hynod agos o 23-19. Daeth cyfle i dalu'r pwyth yn ôl wythnos yn ddiweddarach yn Rownd Gyntaf Powlen Cymru ar Gaeau Les Phillips, ond mewn gêm gyffrous dros ben, rhannwyd 80 pwynt, gyda'r ymwelwyr unwaith eto'n cario'r dydd o 48-32. Ond parhaodd y tîm ar frig y Gynghrair ar ôl curo'r ymwelwyr o Fenllech 38-7. Sgoriwyd chwe chais, dau gan Dafydd Cartwright ac un cais a phedwar trosiad gan Ben Reed i sicrhau pwynt bonws unwaith yn rhagor.

Chwaraeodd yr Ieuenctid yn erbyn Y Rhyl am y tro cyntaf ers chwe mlynedd, gan sgorio wyth cais mewn buddogoliaeth gyfforddus yn y gwynt a'r glaw ar Gaeau Les Phillips.

*********************

Llongyfarchiadau i dri aelod ifanc o'r Clwb, sydd hefyd yn ddisgyblion yn Ysgol Glan Clwyd, ar gael eu dewis i gynrychioli Dwyrain RGC (Rygbi Gogledd Cymru) dan 15 yn erbyn Cwm Tawe mewn gêm a chwaraewyd ar Gaeau Les Phillips. Y tri oedd Efan Edwards, Steffan Floyd-Decke a Thomas Luke Jones.

*********************

Mae'r Clwb yn falch o gyhoeddi fod Cyfarwyddwr Rygbi wedi ei apwyntio am y tro cyntaf yn hanes y Clwb. Un o'r enw Bob Barba sydd wedi derbyn y swydd, ac mae ganddo brofiad helaeth o hyfforddi mewn gwahol glybiau a sefydliadau. Edrychwn ymlaen at gael gweld ei ddylanwad ar safon y rygbi drwy'r Clwb.

*John Davies*

*Llun ar y dudalen gefn*

# Cwis Dwyieithog a Bywiog

Ydach chi'n rhydd ar nos Wener, Tachwedd 9fed?
Ydach. Grêt. Wel beth am bicio draw i'r Clwb Rygbi ar gyfer Cwis Dwyieithog.
Ia, cwis dwyieithog.
Dowch â'ch mêts efo chi hefyd.
Cewch fod mewn timau o hyd at bedwar mewn nifer.
Bydd y noson yn dechrau am hanner awr wedi saith, a'r cwisfeistri fydd Erfyl Williams a Stan Lyall.
Faint fydd o'n gostio i chi? Dwy bunt y pen, ac mae'r cyfan yn mynd at achos da – Pwyllgor Apêl Dinbych Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2020.
Welwn ni chi felly am hanner awr wedi saith ar y nawfed o Dachwedd. Ia, nos Wener ydy hynny ac yn y Clwb Rygbi fyddwn ni.





Morgeisi
CARTREF
Mortgages
**Cyngor Morgais Di-Ffi**
Cynnyrch y Farchnad Gyfan ar gael
Gwasanaeth Dwyieithog
Symud Tŷ | Prynu | Ailforgeisio

Gwasanaeth Proffesiynol, Gonest a Chyfrinachol

Ffoniwch neu E-bostiwch Rhodri Sellers
0782 8824596 Rhodri@cartrefmortgages.co.uk

siop siocled
01745 814864 dinbych
RWAN YN DERBYN ARCHEBION:
PARTION PLANT, NOSWEITHIAU MWYTHAU I'R ARDDEGAU/OEDOLION A BUSNESAU
* Partion Mwythau o £99
* Partion Siocled o £125
* Nosweithiau i Oedolion a Busnesau o £150
I sicrhau dyddiad i'ch parti ffoniwch 01745 814864 neu ebostiwch mark@denbighchocolateshop.com
Stryd y Dyffryn, Dinbych
www.denbighchocolateshop.com
YN FALCH I GEFNOGI Y BIGWN



# Clwb Pêl-droed Dinbych

Yn ystod tair wythnos gyntaf Medi, ni chollodd Dinbych yr un gêm allan o bedair, wrth iddynt ennill yn erbyn Rhyl (2-1) yng Nghwpan y Gynghrair, yna buddugoliaethau o 3-1 yn erbyn Treffynnon, Prestatyn 2-1 a gêm gyfartal gyda Phenrhyn-coch o 1-1.
Er hynny, diweddglo digon truenus a gafwyd i ddiwedd y mis gyda cholled o 6-0 oddi cartref ym Mhorthmadog, ac wrth symud i fis Hydref, colli oedd eu hanes yn erbyn Airbus (2-0) yng Nghwpan y Gynghrair, yna 4-3 yn erbyn Cegidfa (Guilsfield). Ar hyn o bryd, mae'r tîm yn y 13eg safle ond mewn peryg o ddisgyn i'r safleoedd isaf.
Nid yw anafiadau i rai o'r chwaraewyr allweddol wedi helpu, gyda Ross Weaver a'r cefnwr Bailey Jackson yn dioddef o anafiadau llinyn y gar. Ni fydd y cefnwr Joel Hewitt chwaith yn dychwelyd tan y flwyddyn newydd wedi iddo dorri ei ffêr yn y gemau cyfeillgar cyn dechrau'r tymor. Galwyd y chwaraewr ar fenthyg, Alfons Fosu-Mensah yn ôl i Landudno yn dilyn cyfnod llwyddiannus i Ddinbych wrth iddo sgorio tair gôl.
Mae'r rheolwyr Matty Jones a Dewi Llion am arwyddo wynebau newydd ac maent wedi arwyddo Pat Hinchcliffe o Landyrnog sydd newydd ddychwelyd o Seland Newydd. Chwaraeodd Hinchcliffe i Ruthun yn ystod ei blentyndod cyn cael ei ddewis i'r tîm cyntaf, ychydig cyn iddo adael am Seland Newydd. Harri Lovett yw un o'r chwaraewyr ifanc eraill sydd wedi ei arwyddo yn dilyn cyfnod o chwarae i Academi Caer ac Amwythig.
Mae'r Ail Dîm dan reolaeth Kev Roberts wedi perfformio'n arbennig dros yr wythnosau diwethaf gyda buddugoliaethau o 3-1 yn erbyn Llanrwst, Penmaenmawr Phoenix o 8-0, yna 1-0 oddi cartref yn erbyn Prestatyn dan amodau tywydd ofnadwy un nos Wener.
Mae Andy Thomas, y chwaraewr ifanc, yn cael mis ardderchog ar hyn o bryd gyda goliau yn dod o bob cyfeiriad ganddo. Sgoriodd ddwy yn erbyn Llanrwst, saith yn erbyn Penmaenmawr ac yna'r unig gôl yn erbyn Prestatyn. O'r saith gôl a sgoriodd yn erbyn Penmaenmawr, daeth pedair ohonynt o fewn y deng munud olaf o'r gêm. Does dim syndod felly ei fod wedi ei alw i chwarae i'r tîm cyntaf!
Ar hyn o bryd, yn yr ail safle mae'r Ail Dîm gyda 15 pwynt o 7 gêm, ond maen nhw 6 phwynt y tu ôl i'r arweinwyr, Porthmadog.
Parhau i edrych am eu buddugoliaeth gyntaf mae Denbigh Development. Er iddynt golli eu pedair gêm ddiwethaf, mae eu perfformiadau yn sicr yn gwella. Mae'r rheolwyr Dan Whitfield ac Alex Douglas yn ffyddiog bod buddugoliaeth ar y ffordd yn fuan ac maen nhw wedi arwyddo ambell chwaraewr newydd i helpu'r garfan hefyd.
Oddi ar y cae, mae'r Clwb yn y broses o weithio ar Dŷ Clwb newydd. Yn ystod yr haf, cynigwyd caban symudol i'r Clwb gan Medipure Buisness ar Stad Ddiwydiannol Colomendy. Llogodd fusnes lleol graen a lori er mwyn symud y caban i Central Park. Bellach, mae gwaith yn cael ei wneud er mwyn trawsnewid y caban yn Dŷ Clwb lle gall gael ei ddefnyddio gan chwaraewyr, cefnogwyr a swyddogion y timau.
Mae'r Clwb yn hynod ddiolchgar i sawl busnes lleol sydd wedi rhoi eu hamser, eu hadnoddau a'u gwaith gyda'r prosiect hwn. Y gobaith nawr yw cwblhau'r gwaith arno cyn diwedd y flwyddyn, os nad yn gynt.

2 lun ar y dudalen gefn

# CommonVoice - a wnewch chi gyfrannu tuag at CommonVoice Cymraeg?

Project CommonVoice yw'r ymgais i greu data rhydd ar gyfer adnabod lleferydd, fel bod peiriannau yn gallu cofnodi'r hyn rydych yn ei ddweud wrthyn nhw, ei ddeall ac ymateb iddo. Mae hyn yn galluogi darparu rhaglenni a pheiriannau ar gyfer y deillion a'r anabl, cynorthwywyr personol, llywio mewn ceir, ac ati. Mae'r rhain eisoes yn bodoli yn Saesneg, yr her nawr yw eu cael yn Gymraeg.
Rydym yn chwilio am bobl sy'n siarad Cymraeg o bob rhan o Gymru, a'r byd i gyfrannu. Gorau po fwyaf o amrywiaeth mae'r peiriant yn ei gael, y gorau y bydd yn gallu eu dehongli.
Gan fod offer CommonVoice ar wefan ac ap mae modd cyfrannu yn unrhyw le ac ar unrhyw bryd. Mae modd cyfrannu drwy ddarllen brawddegau a phytiau a thrwy ddilysu lleisiau pobl eraill. Mae'r ddwy elfen yn bwysig.
Mae modd defnyddio eich cyfrifiadur eich hun os oes ganddo feicroffon a chlustffonau/uchelseinydd neu yn gallu cysylltu rhai iddo. Mae modd hefyd defnyddio'r ap ar gyfer iPad neu iPhone diweddar.
Mae CommonVoice Cymraeg yn bartneriaeth rhwng Mozilla Foundation, gwneuthurwr y porwr Firefox, Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor a Meddal.com.
Mae modd cyfrannu at CommonVoice Cymraeg yn: voice.mozilla.org/cy/new a'r ap iPhone neu iPad o'r AppStore yn: https://itunes.apple.com/us/ap/project-common-voice-by-mozilla/id1240588326
Mae rhagor o wybodaeth a chyfarwyddid i'w cael ar wefan Meddal.com

Diolch yn fawr,
Rhoslyn Prys
**Meddal.com**




TE YN Y GRUG

**Tŷ Te a Delicatessen**
**Coronation Buildings,**
**Lôn Gefn,**
**Dinbych, Ll16 3TE**
**deli@teynygrug.co.uk**

**01745 816576**


"Cefnogwch Hysbysebwyr Y Bigwn"

# Cymdeithas Gosod Blodau Dinbych



Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Doris Roberts ynghyd â'n harddangoswraig, Helen Raymond Clarke. Ei thema oedd "Haute Couture" - Uchel Ffasiwn ar hyd y blynyddoedd.

Aeth ei gosodiad cyntaf a ni'n ôl i 1900 – 1920 gyda chynhwysydd tal, dau osodiad a ddelffiniwm cochlas, rhosod gwynion, Fatsias gwyrdd hyfryd a llawryf – lliwiau y Swffragéts.

Daeth yr ail osodiad a ni i'r '40au, amser y cynni mawr, lle'r oedd yn rhaid gwneud llawer o ychydig gyda'r llyfrau dogni. Gosodiad syml gyda deiliach o wahanol liwiau mewn dau leoliad.

Daeth a ni wedyn i'r '50au i oes Christian Dior, benywaidd iawn, mewn cyfnod o ormodedd. Bwnsiad o rosynnau gwynion, antiriniwms pinc, gweiriach a charnasiwns pinc wedi eu clymu â dolen fawr wen.

Ymlaen a ni wedyn i'r '60au gyda'r ffasiynau newydd mewn defnyddiau o wahanol liwiau – cyfnod dyluniad ffabrig (ymestynnol) o'r cyfandir gyda blodau melyn, cochlas a choch, rhosod melynbinc a charnasiwns. Hyfryd.

I gloi'r noson aeth Helen a ni i'r '80au lle defnyddiodd ddau o flociau concrid i gynnal y gosodiad o degeirianau yn goferu drostynt. Noson ddifyr a phleserus iawn.

Talwyd y diolchiadau gan Dorothy Roberts

Margherita Jones

**BAG Y BIGWN**

**Diolch yn fawr am eich cefnogaeth**

| | |
|---|---|
| Eiri a John | £ 5.00 |

## Rhedeg yn ôl i Baris

Dewch i hel atgofion am ddyddiau arbennig Euro 2016 a chyfle i ennill crys wedi ei arwyddo gan dîm Cymru

Noson i rai 16 oed a hŷn, bar ar gael

Tocynnau ar gael gan aelodau'r Pwyllgor Apêl a Siop Clwyd, Dinbych

Am ragor o wybodaeth, neu docynnau (ac os oes ganddoch luniau i'w rhannu o'r cyfnod) anfonwch neges : elsiwyn@icloud.com




**Hysbyseb Gwasg Helygain**



Andy Thomas a sgoriodd SAITH gôl i'r Ail Dîm yn erbyn Penmaenmawr Phoenix



Pat Hinchcliffe sydd wedi ymuno â'r Clwb o Melville United, tîm o Seland Newydd




Efan a Steffan. (Doedd Thomas ddim ar gael pan dynnwyd y llun.)



Y murlun yn y Llyfrgell gyda Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas a Jean Powell,

**OS OES ANGEN**
**COPI PRINT BRAS**
**O'R BIGWN ARNOCH**
**CYSYLLTWCH EFO BEDWYR**
**AR 814497**

***GOLYGYDD Rhagfyr:***
***Berwyn Roberts***

Cyhoeddwyd gan: Gymdeithas y Bigwn Cysodwyd gan Hywel Evans ac Argraffwyd gan Wasg Helygain